# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
## Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## Offerynnau Statudol gydag adroddiadau clir
30 Tachwedd 2015

### CLA620 - Rheoliadau Gofal a Chymorth (Darparu Gwasanaethau Iechyd) (Cymru) 2015

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn darparu na chaiff awdurdod lleol ddiwallu anghenion person am ofal a chymorth (neu anghenion gofalwr am gymorth) drwy ddarparu neu drwy drefnu i ddarparu gwasanaeth y mae'n ofynnol ei ddarparu'n unol â deddfiad iechyd, oni bai y byddai gwneud hynny yn gysylltiedig â gwneud rhywbeth arall i ddiwallu anghenion y person, neu'n ategol at wneud hynny.

Mae'r Ddeddf hefyd yn darparu nad yw'r gwaharddiad hwn yn gymwys o dan amgylchiadau a bennir mewn rheoliadau.

Mae'r Rheoliadau hyn yn galluogi awdurdod lleol i wneud trefniadau i ddarparu llety ynghyd â gofal nyrsio gan nyrs gofrestredig ar yr amod bod yr awdurdod wedi cael cydsyniad y corff iechyd perthnasol.

### CLA621 - Rheoliadau Gofal a Chymorth (Methiant Busnes) (Cymru) 2015

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gosod dyletswyddau dros dro ar awdurdodau lleol i ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolion (neu anghenion gofalwyr am gymorth) o dan amgylchiadau pan fo darparwyr cofrestredig gofal yn methu â pharhau i weithredu oherwydd 'methiant busnes'.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynglŷn â'r dehongliad o 'fethiant busnes' a'r amgylchiadau pan fo unigolyn, neu ddarparwr nad yw'n unigolyn, i'w drin fel pe bai'n methu â gwneud rhywbeth oherwydd 'methiant busnes'.